

## Agenda – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 23 Mehefin 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

### 9(v3)

---

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A–D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod aelodau o'r cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

#### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

#### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

#### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)



Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

#### **4 Datganiadau 90 eiliad**

(5 munud)

#### **Cynnig i atal Rheolau Sefydlog**

##### **NDM7727 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(ii) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r eitem nesaf gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 23 Mehefin 2021.

#### **Cynigion o dan Reolau Sefydlog 16.1 ac 16.3 i gytuno teitlau a chylchoedd gorchwyl Pwyllgorau**

##### **NDM7729 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, yn cytuno y caiff y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro, a sefydlwyd ar 26 Mai 2021, ei ailenwi y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Ei gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, a Rheol Sefydlog 26C, ac i ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd Deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad (gan gynnwys dyfodol cyfansoddiadol Cymru), cyfiawnder, a materion allanol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) newidiadau i'r setliad datganoli, a chysylltiadau rhynglywodraethol.

##### **NDM7731 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Cyllid i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 18A, a 19 y Senedd. O dan Reol Sefydlog 19, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Senedd

ynghylch defnyddio adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, gan gynnwys craffu ar gyllidebau'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru. O dan Reolau Sefydlog 18.10 a 18.11, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys goruchwyllo llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; O dan Reol Sefydlog 18A, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys goruchwyllo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gall y pwyllgor hefyd, fel rhan o'i gyfrifoldebau, ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru. Gall y pwyllgor graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Senedd.

**NDM7732 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 a 18.3, i ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd o adnoddau i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall y pwyllgor graffu ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â pheirianwaith llywodraethu, gan gynnwys ansawdd a safonau'r weinyddiaeth a ddarperir gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Gymru a chyrrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

**NDM7733 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

**NDM7734 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

**NDM7735 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif trwy graffu ar ei materion o ran gwariant, gweinyddiaeth a pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd, adfywio, sgiliau, masnach, ymchwil a datblygu (gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth), a materion gwledig.

**NDM7736** [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif trwy graffu ar ei materion o ran gwariant, gweinyddiaeth a pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol, cymunedau, a thai.

**NDM7737** [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif trwy graffu ar ei materion o ran gwariant, gweinyddiaeth a pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): cydraddoldeb a hawliau dynol, gwaith teg, cydlyniant cymunedol a diogelwch, mynd i'r afael â thlodi, a rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ar waith. Yn ogystal, gall y pwyllgor ymchwilio i unrhyw faes polisi o safbwynt y materion trawsbynciol o fewn ei gylch gorchwyl, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): cydraddoldeb a hawliau dynol; a gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**NDM7738** [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif trwy graffu ar ei materion o ran gwariant, gweinyddiaeth a pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): polisi newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd, ynni; cynllunio; trafndiaeth, a chysylltedd.

**NDM7739** [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i

archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif trwy graffu ar ei materion o ran gwariant, gweinyddiaeth a pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): y Gymraeg, diwylliant; y celfyddydau; yr amgylchedd hanesyddol; cyfathrebu, darlledu; y cyfryngau, chwaraeon a chysylltiadau rhyngwladol. Gall y Pwyllgor ymchwilio i unrhyw faes polisi o safbwynt y Gymraeg.

#### **NDM7740 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 22.

#### **NDM7741 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Deisebau i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 23.

### **Dogfennau Ategol**

#### **[Adroddiad y Pwyllgor Busnes](#)**

### **Cynnig i ddyrannu cadeiryddion pwyllgorau i'r grwpiau plaid**

#### **NDM7728 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2A, yn cytuno mai'r grwpiau gwleidyddol y caiff cadeiryddion pwyllgorau eu hethol ohonynt fydd fel a ganlyn:

- (i) Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Llafur;
- (ii) Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Ceidwadwyr Cymreig;
- (iii) Y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig – Ceidwadwyr Cymreig;
- (iv) Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – Plaid Cymru;;
- (v) Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Llafur;
- (vi) Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – Plaid Cymru;
- (vii) Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Llafur;
- (viii) Y Pwyllgor Cyllid – Plaid Cymru;

(ix) Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Ceidwadwyr Cymreig;

(x) Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – Llafur;

(xi) Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Llafur;

(xii) Y Pwyllgor Deisebau – Llafur.

## Cynnig i benodi Comisiwn y Senedd

### NDM7730 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 7.1, yn penodi Ken Skates (Llafur Cymru), Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig), Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru) a Joyce Watson (Llafur Cymru), yn aelodau o Gomisiwn y Senedd.

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Gwasanaethau bws

(60 munud)

### NDM7704 [Huw Irranca-Davies \(Ogwr\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod cytundeb gwasanaethau bysiau o fis Mawrth 2021 yn ymrwmo £37.2 miliwn o gyllid i barhau i gefnogi'r diwydiant bysiau yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

2. Yn nodi bod y cytundeb yn ymrwmo i ail-lunio gwasanaethau bysiau lleol yn sylfaenol, gan ddiwallu anghenion teithwyr yn well.

3. Yn nodi bod y cytundeb hefyd yn ceisio ailadeiladu defnydd ar ôl COVID-19, gan annog niferoedd cynyddol i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus dros amser ar gyfer ystod eang o deithiau, fel y mae amodau'n caniatáu.

4. Yn nodi ymhellach y cyhoeddwyd Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, sy'n cynnwys amrywiaeth o ymrwymadau gan gynnwys:

a) ymestyn cyrhaeddiad gwasanaethau bysiau;

b) datblygu deddfwriaeth bysiau newydd i roi mwy o reolaeth i'r sector cyhoeddus dros wasanaethau bysiau lleol;

c) darparu gwasanaethau bysiau arloesol, mwy hyblyg, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y sector masnachol a'r trydydd sector; a

d) sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau bysiau yn hygyrch, yn ddeniadol ac yn ddiogel i bawb.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi cynlluniau ac amserlenni manwl ar gyfer cyflawni'r ymrwymadau ar wasanaethau bysiau yn Llwybr Newydd.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a phartneriaid i ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau lleol ledled Cymru ar y strategaeth ac wrth ail-lunio gwasanaethau bysiau i ddiwallu'r anghenion trafndiaeth a nodwyd gan y cymunedau hynny.

[Cytundeb Gwasanaeth Bysiau – Mawrth 2021](#)

[Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021](#)

### **Cyd-gyflwynwyr**

[John Griffiths \(Dwyrain Casnewydd\)](#)

[Janet Finch-Saunders \(Aberconwy\)](#)

[Jenny Rathbone \(Canol Caerdydd\)](#)

[Natasha Asghar \(Dwyrain De Cymru\)](#)

[Llyr Gruffydd \(Gogledd Cymru\)](#)

[Heledd Fychan \(Canol De Cymru\)](#)

[Hefin David \(Caerffili\)](#)

[Altaf Hussain \(Gorllewin De Cymru\)](#)

[Jane Dodds \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)

[Jayne Bryant \(Gorllewin Casnewydd\)](#)

[Vikki Howells \(Cwm Cynon\)](#)

[Luke Fletcher \(Gorllewin De Cymru\)](#)

## **6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

(60 munud)

**NDM7716** [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod 23 Mehefin 2021 yn nodi pum mlwyddiant pobl Cymru yn pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd.
2. Yn credu y dylid parchu canlyniadau refferenda bob amser.
3. Yn cydnabod bod nifer fawr o gyfrifoldebau newydd wedi'u trosglwyddo i Senedd Cymru o ganlyniad i'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo a manteisio ar y cyfleoedd y mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn eu cynnig.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bygythiadau parhaus Llywodraeth y DU i ddatganoli ar ôl Brexit, yn benodol o ran Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, y gronfa lefelu i fyny a'r gronfa ffyniant gyffredin;
2. Yn credu y dylai pleidleiswyr bob amser gael cynigion clir a manwl ar refferenda cyfansoddiadol;
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gychwyn y broses a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i geisio pwerau i'r Senedd alw refferendwm rhwymol ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru a fyddai'n rhoi dyfodol Cymru yn nwylo Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 [Lesley Griffiths \(Wrecsam\)](#)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod canlyniad refferendwm yr UE.
2. Yn galw ar Lywodraeth y DU i weithio mewn modd adeiladol gyda'r UE er mwyn lleihau effaith y cytundeb y cytunwyd arno ar fusnesau a dinasyddion ledled y DU.



3. Yn condemnio methiant Llywodraeth y DU i gyflawni ei haddewid na fyddai Cymru ar ei cholled yn ariannol mewn unrhyw ffordd yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

4. Yn condemnio ymosodiad parhaus Llywodraeth y DU ar ddatganoli drwy Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, cronfa codi'r gwastad a'r gronfa ffyniant gyffredin.

5. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â phobl Cymru er mwyn ystyried ein dyfodol cyfansoddiadol o fewn Deyrnas Unedig sydd wedi'i diwygio'n sylweddol.

[Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020](#) (Saesneg yn unig)

## 7 Cyfnod pleidleisio

### 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7710** [Jack Sargeant \(Alun a Glannau Dyfrdwy\)](#)

Bargen deg i weithwyr.

### 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7717** [Janet Finch-Saunders \(Aberconwy\)](#)

Dileu'r claf'r yng Nghymru: yr angen parhaus i gael cynllun cryf ar waith i ddileu'r claf'r yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 29 Mehefin 2021

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 16/06/2021 i'w hateb ar 23/06/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

### Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

- 1 OQ56620 (e)  
Pa adnoddau sydd wedi'u dyrannu yng nghyllideb 2021-22 Llywodraeth Cymru i helpu pobl â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

- 2 OQ56635 (e)  
Pa egwyddorion y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dilyn wrth ddatblygu polisi treth yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

- 3 OQ56641 (w)  
Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r bleidlais sengl drosglwyddadwy fel system bleidleisio yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dod i rym?

**Buffy Williams** *Rhondda*

- 4 OQ56630 (e)  
Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith ariannol COVID-19 ar awdurdodau lleol yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

- 5 OQ56627 (e)  
Pa ystyriaeth a roddodd Llywodraeth Cymru i gymorth busnes yng Nghymru wrth ddrafftio ei chyllideb ar gyfer 2021-22?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

- 6 OQ56629 (e)  
Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ddatgarboneiddio trafndiaeth wrth ddyrannu'r gyllideb i'r portffolio newid hinsawdd?

**Peter Fox** *Mynwy*

- 7 OQ56642 (e) Datganodd yr Aelod fuddiant  
A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i adolygiad annibynnol o'r fformiwla bresennol ar gyfer ariannu awdurdodau lleol yng Nghymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

8

**OQ56624 (e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganran cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 sy'n cael ei gwario ar feysydd polisi nad ydynt wedi'u datganoli?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

9

**OQ56654 (e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog yn ei rhoi i'r ddarpariaeth o wasanaethau digartrefedd gan lywodraeth leol wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio newid hinsawdd?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

10

**OQ56633 (w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae'r dreth ar ail gartrefi yn cael ei weithredu?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

11

**OQ56652 (e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau'r dreth gyngor yng Ngorllewin De Cymru?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

12

**OQ56660 (e)**

Pa gymorth ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i awdurdodau lleol cyn etholiadau lleol 2022?

## **Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A'R TREFNYDD**

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

1

**OQ56632 (w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i hybu'r sector fwyd yn Ynys Môn?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

2

**OQ56634 (e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y cytundeb masnach amlinellol diweddar rhwng Llywodraeth y DU ac Awstralia ar ffermwyr cig eidion a chig oen yng ngogledd Cymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

**3** OQ56661 (e)

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith anifeiliaid fferm sy'n crwydro ar les anifeiliaid?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**4** OQ56663 (e)

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella lles anifeiliaid yng Nghymru?

**Buffy Williams** *Rhondda*

**5** OQ56647 (e)

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwella iechyd a lles anifeiliaid dros dymor y Senedd hon?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

**6** OQ56653 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen datblygu gwledig yng Ngorllewin De Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**7** OQ56639 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun Llywodraeth Cymru i ddileu TB mewn gwartheg?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**8** OQ56657 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella lles anifeiliaid yn ystod tymor y Senedd hon?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**9** OQ56631 (w)

Pryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil amaeth i Gymru?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

**10** OQ56643 (w)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cynllun Glastir?

**Hefin David** *Caerffili*

11

**OQ56662 (e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer arallgyfeirio ar ffermydd yng Nghymru?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

12

**OQ56648 (e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i wella lles anifeiliaid ar ffermydd Cymru?